# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Mercher, 24 Tachwedd 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.E.Freeguard** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, D.Keogh, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, S.H.Reynolds, R.L.Taylor, A.N.Woolcock a/ac W.F.Griffiths |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jones, M.Shaw, J.Woodman-Ralph a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

---

## 1. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Fframwaith Cydnerthedd Gwasanaethau Tymor Byr

Derbyniodd yr Aelodau'r Fframwaith Cydnerthedd Gwasanaethau Tymor Byr a oedd yn ceisio lleihau'r risg o darfu ar wasanaethau yn y tymor byr.

Esboniodd y Prif Weithredwr sut yr oedd gofynion y gwasanaeth wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf a sut yr oedd hyn wedi effeithio ar y gweithlu cyffredinol.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi lleihau'r lefel rhybudd i Lefel Sero ar 7 Awst 2021, a arweiniodd at lawer mwy o gymysgu cymdeithasol ar draws gwahanol gymunedau; erbyn 24 Hydref 2021 roedd nifer yr achosion lleol wedi codi i 1037.6 achos i bob 100,000 o'r boblogaeth, gyda bron i 1 o bob 3 o bobl yn profi'n bositif am COVID-19 bryd hynny. Soniodd swyddogion fod y cyfraddau wedi

gostwng ers hynny; ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd nifer yr achosion yn 653.8 achos fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr achosion, dywedwyd bod cyfraddau Coronafeirws ar draws y gymuned yn parhau i fod yn uchel iawn, a bod y cynnydd mewn trosglwyddo cymunedol wedi cael effaith bellach ar y galw am wasanaethau; er enghraifft, roedd y Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) yn brysurach ac roedd effeithiau sylweddol ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Hysbyswyd yr aelodau fod meysydd gwasanaeth ar draws y cyngor yn parhau i weithredu dan asesiadau risg COVID-19; roedd hyn yn effeithio ar y ffordd yr oedd y cyngor yn gallu darparu gwasanaethau, a nifer y bobl sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Nodwyd bod llawer mwy o unigolion o fewn y gymuned yn cyflwyno anghenion amrywiol, o ganlyniad i fyw drwy 20 mis o'r pandemig.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod gan rai meysydd gwasanaeth ôl-groniadau sylweddol yn eu gwaith yr oedd angen rhoi sylw iddynt; roedd hyn o ganlyniad i neilltuo rhywfaint o waith er mwyn gallu ymdrin â'r blaenoriaethau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gynghorau eu hystyried.

Hysbyswyd yr aelodau fod y cyngor wedi derbyn cyllid ar gyfer rhai prosiectau cyffrous iawn yn y Fwrdeistref Sirol, yr oedd swyddogion yn gefnogol i'w datblygu; roedd hyn yn golygu bod angen eu hystyried yng nghynlluniau cydnerthedd gwasanaethau tymor byr y cyngor.

Esboniwyd bod nifer y bobl a oedd ar gael i wasanaethu'r galw wedi lleihau ychydig dros y misoedd diwethaf; roedd nifer o resymau dros hyn, a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Soniodd swyddogion fod rhai meysydd gwasanaeth yn wynebu heriau o ran recriwtio pobl i swyddi gwag; ar hyn o bryd roedd llawer o swyddi gwag o fewn yr economi leol, ac roedd gan rai o'r swyddi yn y sector preifat fwy o fanteision a/neu well cyflog na'r rhai yn y sector cyhoeddus.

O ran sefyllfa bresennol y cyngor, nodwyd bod galw cynyddol, ychydig yn llai o bobl i ymdrin â'r galw, ac ôl-groniadau a oedd yn gofyn am staff ychwanegol y tu hwnt i'r lefelau gallu arferol; roedd angen cymryd camau ar unwaith i geisio llenwi'r swyddi gwag sy'n weddill, yn ogystal â dod â gallu ychwanegol i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi dros fisoedd y gaeaf. Ychwanegwyd bod y cyngor yn gallu cynnig y rolau amrywiol yn allanol; gyda'r gobaith y bydd pobl leol yn gwneud cais.

Esboniodd swyddogion fod tanwariant cyfredol o fewn y terfyn arian parod presennol a oedd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol; nod y cynnig oedd defnyddio £2 filiwn o'r tanwariant manwl ar gyfer y Fframwaith Cydnerthedd Gwasanaethau er mwyn cyflogi staff ychwanegol.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y seminar diweddar ar gyfer yr holl aelodau yn ymwneud â phwysau gwasanaeth yn llawn gwybodaeth, a'i fod wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y pwysau presennol a pha gamau yr oedd angen eu rhoi ar waith er mwyn lleddfu rhai o'r pwysau hynny.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

<u>Adroddiad Monitro'r Gyllideb Misol 2021/2022</u>

Rhoddwyd Adroddiad Monitro'r Gyllideb Misol i'r pwyllgor ar gyfer 2021/22.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid drosolwg o'r adroddiad a ddosbarthwyd; ar hyn o bryd roedd swyddogion yn rhagweld y bydd gan y cyngor danwariant o tua £8.3miliwn erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Nodwyd bod amrywiaeth o resymau dros hyn; un o'r prif bwyntiau oedd, pan bennwyd y gyllideb, roedd lefel enfawr o ansicrwydd o ran Cronfa Galedi COVID-19. Felly, nodwyd bod lefel fawr o arian wrth gefn wedi'i chynnwys yn y gyllideb; ar hyn o bryd, roedd swyddogion yn rhagweld na fyddai angen y lefel hon o arian wrth gefn. Esboniodd swyddogion fod y cyngor hefyd yn casglu mwy o incwm treth y cyngor na'r disgwyl; roedd hefyd angen cymorth treth y cyngor ar lai o bobl na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.

Hysbyswyd yr aelodau na ragwelwyd y byddai'r tanwariant hwn yn rheolaidd, gan y rhagwelwyd y bydd y swyddi gwag yn cael eu llenwi, a bydd y cyngor yn gallu dechrau cyflawni rhai mentrau a oedd wedi'u rhoi ar waith.

Roedd swyddogion yn cynnig peidio â defnyddio'r £3.1miliwn, a gynlluniwyd yn wreiddiol, o gronfeydd wrth gefn cyffredinol; ac roeddent yn bwriadu rhoi £2 filiwn i'r Fframwaith Cydnerthedd Gwasanaethau a £2 filiwn arall yn ôl i gronfeydd wrth gefn penodol.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn cyffredinol; awgrymodd canllawiau Archwilio Cymru y byddai lefel ddoeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 5% o'r gyllideb. Nododd yr aelodau fod lefel Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn sylweddol uwch na'r lefel yn y canllawiau, ac o'i chymharu â

chynghorau eraill ledled Cymru; mynegwyd pryderon mewn perthynas â'r cydbwysedd rhwng cronfeydd wrth gefn cyffredinol a lefelau treth y cyngor a bennwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi nad oedd cardbord a gwastraff bwyd bellach yn arwain at gostau i'w gwaredu a’u bod yn cynhyrchu incwm yn lle, gan arwain at ostyngiad disgwyliedig yng nghostau net gwaredu gwastraff; Gofynnodd yr aelodau am ragor o wybodaeth am hyn a'r newid yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fod y diwydiant gwastraff yn gyfnewidiol iawn; mae pris cardbord, plastig, gwydr etc. yn newid yn aml iawn. Nodwyd y gallai'r cyngor fynd o sefyllfa o dalu pobl i gymryd deunyddiau, i sefyllfa o sicrhau incwm o'r deunyddiau y gellir eu hailgylchu. Hysbyswyd yr aelodau fod pocedi o fewn y Fwrdeistref Sirol lle'r oedd diffyg cydweithrediad gan rai preswylwyr; byddai'r cyngor yn ymgymryd â chynllun peilot yn un o'r ardaloedd hynny, er mwyn ceisio annog y preswylwyr hynny i gynyddu eu hailgylchu er mwyn i'r cyngor gyrraedd y targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Esboniwyd nad oedd y cyngor wedi cyrraedd y targedau y llynedd, ond eleni cyrhaeddwyd y targedau; rhagorodd y cyngor ar y targedau eleni ac roeddent yn un o'r ychydig iawn o awdurdodau i gael gwelliant sylweddol mewn perfformiad.

Holodd yr aelodau pe bai'r cyngor yn llenwi'r holl swyddi gwag, a fyddai gwahaniaeth sylweddol yn sefyllfa'r gyflogres. Cadarnhaodd swyddogion fod tua 200 o swyddi gwag o fewn y cyngor ar hyn o bryd, a phe bai'r holl swyddi hyn yn cael eu llenwi, byddai'n cael effaith sylweddol ar y gyllideb; roedd angen cadw hyn mewn cof ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth mewn perthynas â chyflawni Rhaglen Gyfalaf 2021/22.

Dywedodd swyddogion fod yr adroddiad yn nodi cyllideb arfaethedig o £82.4miliwn a oedd £2.3miliwn yn llai na'r hyn a gymeradwywyd; manylwyd ar y rhestr o newidiadau yn atodiad 2 yr adroddiad a ddosbarthwyd. Nodwyd bod y cyngor wedi ysgwyddo £30.6miliwn o

wariant, sef 37% o'r rhaglen gyfalaf; amlygwyd bod hyn ar y trywydd iawn o ystyried yr oedi wrth gyflwyno prosiectau a gwario arian.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn nodi bod cyllideb o £2.584m wedi'i chynnwys yn 2021/22 ar gyfer Buddsoddiad Mewn Gweithgareddau Parc Margam; fodd bynnag, mae £2.336m wedi'i ail-broffilio ar gyfer 2022/23 i adlewyrchu proffil y gwaith y mae ei angen. Gofynnodd yr Aelodau a allai Swyddogion egluro'r hyn y mae 'ail-broffilio' yn ei olygu; cadarnhawyd nad oedd modd i'r gwaith fynd rhagddo yn ôl y bwriad, felly roedd yr arian yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**